

# Y Gyfres Cynllunio

## 8 - Offer telathrebu

Ionawr 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru/](http://ymchwil.senedd.cymru/)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 101 0187**  
E-bost: **[Rhiannon.Hardiman@senedd.cymru](mailto:Rhiannon.Hardiman@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Y Gyfres Cynllunio

## 8 - Offer telathrebu

Ionawr 2022

---

**Awdur:**

Rhiannon Hardiman



## Cynnwys

<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>Beth yw offer telathrebu? .....</b>	<b>1</b>
<b>Sut y caiff y mathau hyn o ddatblygiadau eu rheoli?.....</b>	<b>1</b>
<b>Pa fath o offer sy'n ddatblygiadau a ganiateir? .....</b>	<b>2</b>
<b>Beth yw cymeradwyaeth ymlaen llaw? .....</b>	<b>3</b>
<b>Pryd mae angen caniatâd cynllunio? .....</b>	<b>4</b>
<b>Beth yw'r newidiadau diweddar i weithdrefnau cynllunio telathrebu? .....</b>	<b>4</b>
<b>Sut yr asesir y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â datblygiadau o'r fath? .....</b>	<b>4</b>
<b>Beth yw'r Cod Arferion Gorau i Weithredwyr Ffonau Symudol? .....</b>	<b>5</b>

---

**Ffynonellau allweddol ..... 6**

Llywodraeth Cymru ..... 6

Cymorth Cynllunio Cymru ..... 6

Ymchwil y Senedd ..... 6

## Cyflwyniad

Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn cynnig trosolwg o'r broses gynllunio ar gyfer offer telathrebu. Mae'n nodi pa fath o ddatblygiadau sy'n cael eu rhoi yn y categorïau a ganlyn: datblygiadau a ganiateir; datblygiadau a ganiateir gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw; a datblygiadau y mae angen caniatâd cynllunio arnynt. Mae hefyd yn trafod sut yr eir i'r afael â risgiau iechyd posibl a ddaw yn sgil y datblygiadau hyn a'r Cod Arfer Gorau i Weithredwyr Ffonau Symudol.

## Beth yw offer telathrebu?

Mae offer telathrebu'n cynnwys offer radio a thechnoleg ddigidol fel mastiau ffonau symudol, antenâu radio ac offer cysylltiedig. Gall mastiau mwy o faint gynnwys ystod o offer telathrebu a galluogi gwahanol weithredwyr i'w defnyddio ar y cyd.

Mae esblygiad technoleg symudol o'r ail genhedlaeth (2G) a alluogodd alwadau llais a negeseuon testun, i'r mynediad rhyngwrwyd cyflymach a gynigir gan 3G a 4G, i'r cyflymdra uchel iawn, lled band uchel a ddarperir gan 5G wedi dod â rhwydwaith o offer dwysach a fydd yn gweld mwy o systemau celloedd bach yn cael eu gosod, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Gellir dod o hyd i systemau o'r fath ar adeiladau a strwythurau eraill.

Mae **Canllawiau Gweithredwyr y Rhwydwaith Ffonau Symudol** bellach yn canolbwyntio ar gyflwyno technoleg 5G a'r offer cysylltiedig.

## Sut y caiff y mathau hyn o ddatblygiadau eu rheoli?

Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gyfrifol am reoli'r gwaith o ddatblygu offer telathrebu. Yng Nghymru, mae 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol, sy'n cynnwys y 22 o awdurdodau lleol a thri Awdurdod Parciau Cenedlaethol. Mae **Polisi Cynllunio Cymru** Rhifyn 11 (t.77) yn nodi y "defnyddir hawliau datblygu helaeth

sydd wedi'u caniatáu i gefnogi darparu seilwaith telathrebu electronig”.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod disgwyliad i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgysylltu'n weithredol â gweithredwyr ffonau symudol pan fyddant yn paratoi cynlluniau datblygu lleol. Dylai'r rhain nodi'r polisiau a'r cynigion ar gyfer lleoliad datblygiadau telathrebu, gan ddyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau mawr a chynnwys polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiadau telathrebu lle gallai safleoedd ac eithrio'r rhai a nodir yn y cynllun gael eu cynnig.

Ni chaiff rhai gweithredoedd bach eu hystyried yn ddatblygiadau o gwbl, felly nid oes angen unrhyw fath o gymeradwyaeth arnynt. Mae hyn yn cynnwys gosod lloerennau ac erialau teledu bach ar eiddo domestig.

Caiff datblygiadau telathrebu eraill eu rhannu'n un o dri chategori:

- datblygiadau a ganiateir;
- datblygiadau a ganiateir gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw; a
- datblygiadau y mae angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer.

## Pa fath o offer sy'n ddatblygiadau a ganiateir?

Diffinnir rhai mathau o ddatblygiadau mewn cyfraith cynllunio fel datblygiadau 'a ganiateir', felly caiff caniatâd datblygu ei roi iddynt heb fod angen cais cynllunio. Mae'r mathau o ddatblygiadau telathrebu a ddiffinnir fel y rhai 'a ganiateir' wedi'u nodi yn rhan 23 o *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995* fel y'i diwygiwyd.

Mae'r math o offer 'a ganiateir' yn cynnwys datblygiadau ar raddfa fach, er enghraifft gosod antenâu ychwanegol ar fastiau radio sydd eisoes yn bodoli, neu ar orsafoedd a chabinetau offer sy'n llai na 2.5 metr ciwbig.

Fodd bynnag, nid ystyrir y rhain yn ddatblygiadau 'a ganiateir' ar 'dir gwarchoddedig' megis Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol na Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn yr ardaloedd hyn, byddai angen cymeradwyaeth ymlaen llaw (gweler isod) ar ddatblygiadau bach hyd yn oed.

Mae'n bosibl bod ardaloedd eraill lle gallai arfer yr hawl datblygu a ganiateir gael effaith ddifrifol. Gall Awdurdod Cynllunio Lleol roi 'Cyfarwyddyd Erthygl 4' i dynnu

hawliau datblygu a ganiateir yn ôl mewn ardaloedd penodol, os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol. Rhaid i gyfarwyddyd o'r fath gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Beth yw cymeradwyaeth ymlaen llaw?

Mae rhai datblygiadau telathrebu mwy yn 'ddatblygiadau a ganiateir', ond mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredydd wneud cais i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i weld a oes angen 'cymeradwyaeth ymlaen llaw' arnynt cyn dechrau ar y datblygiadau.

Mae hyn yn wahanol i gais cynllunio llawn gan fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn edrych yn bennaf ar leoliad a dyluniad y datblygiad, yn hytrach nag a ddylid ei ganiatáu o gwbl. Dylai datblygwyr ddarparu dogfennaeth i lefel debyg i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer caniatâd cynllunio ac efallai y bydd angen rhywfaint o ymgynghori hefyd. Os bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, rhaid iddo hysbysu'r datblygwr o hyn - a'i benderfyniad terfynol - cyn pen 56 diwrnod neu fel arall gall y datblygiad fynd yn ei flaen. Ni ellir ymestyn ar y cyfnod o 56 diwrnod.

Pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y gellir cyfiawnhau gwrthod rhoi cymeradwyaeth, dylai drafod yn gyntaf gyda'r gweithredydd y posibilrwydd o newid lleoliad a/neu ymddangosiad y datblygiad arfaethedig. Gall datblygwyr hefyd ailgyflwyno cynnig newydd gan nad effeithir ar yr hawl datblygu a ganiateir.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r math o ddatblygiad sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn 'datblygiad a ganiateir gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw':

- gosod mast ar y ddaear hyd at 25 metr o uchder ar dir heb ei warchod neu 20 metr ar dir gwarchodedig;
- newid neu ailosod mast ar dir sydd heb ei warchod nad yw'n fwy na 25 metr ac nad yw'n fwy na thraean neu fetr o ran lled; fodd bynnag, ers 2019 nid oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw os nad yw'r mast newydd yn fwy na'r uchder presennol neu 20 metr;
- cyfarpar wedi'i osod ar adeilad neu strwythur hyd at 15 metr o uchder nad yw'n fwy nag uchder yr adeilad hwn gan fwy na 6 metr;
- blwch ffôn cyhoeddus;
- unedau sy'n cynnwys offer radio sydd â chyfaint o dros 2.5 metr ciwbig



- datblygiadau bach penodol ar dir gwarchoddedig megis Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth ac ati.

## Pryd mae angen caniatâd cynllunio?

Mae angen caniatâd cynllunio ar bob math arall o ddatblygiadau telathrebu sydd y tu allan i feini prawf datblygiadau a ganiateir, fel y'i hamlinellir yn y ddeddf, cyn y gellir bwrw ymlaen â hwy. Os oes angen caniatâd cynllunio ar ddatblygiad, yna bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried hyn yn yr un ffordd ag unrhyw gais arall. Os bydd y datblygiad yn effeithio ar Adeilad Rhestredig, yna bydd angen gwneud cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.

## Beth yw'r newidiadau diweddar i weithdrefnau cynllunio telathrebu?

Roedd **Gwelliant Ebrill 2019** i'r Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol yn disodli Rhan 24 yn ei chyfanrwydd. Roedd rhai o'r newidiadau'n cynnwys ymestyn hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas ag uchder a lled mastiau ar y ddaear ac ymestyn y cyfnod ar gyfer mastiau dros dro a ddefnyddir mewn argyfwng i hyd at ddeunaw mis. Gwnaeth newidiadau hefyd mewn perthynas â rhywfaint o offer band eang llinell sefydlog. Mae tudalen 5 yn y **Memorandwm Esboniadol** hwn yn rhoi rhagor o fanylion am y newidiadau allweddol.

Mae'r **diwygiad mwyaf diweddar i'r Gorchymyn Gweithdrefn Datgiblygu Cyffredinol** ym mis Rhagfyr 2020 yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer 'systemau celloedd bach', sydd wedi'u lleoli'n bennaf ar adeiladau a strwythurau eraill. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** hwn a'r **llythyr hwn at Awdurdodau Cynllunio Lleol** yn darparu rhagor o fanylion.

Amcan polisi y ddau welliant yw hwyluso gwell darpariaeth ar gyfer ffonau symudol.

## Sut yr asesir y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â datblygiadau o'r fath?

Os yw datblygiad yn ymwneud â chodi un neu fwy o antenâu, mae'r ddeddfwriaeth yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredydd

gyflwyno datganiad sy'n dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio (ICNIRP) ynghylch amlygiad y cyhoedd i ymbelydredd, naill ai fel rhan o'r broses gymeradwyaeth ymlaen llaw neu'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio. Mae ICNIRP yn sefydliad annibynnol sy'n darparu cyngor a chanllawiau gwyddonol ar effeithiau ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio ar iechyd a'r amgylchedd. Y rhain yw'r canllawiau y cytunwyd arnynt fel y safon Ewropeaidd ar amlygiad y cyhoedd i feysydd electromagnetig.

Mae dyletswyddau ar weithredwyr o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch hefyd. Dylent asesu unrhyw risgiau iechyd a diogelwch a all godi, gan gynnwys lefelau allyriadau tebygol y gall pobl ddod i gysylltiad â hwy, a chymryd unrhyw fesurau priodol i rwystro'r cyhoedd rhag cael mynediad at y datblygiadau. Nid oes gofyniad ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i orfodi rheoliadau drwy'r system gynllunio, sydd eisoes yn berthnasol o dan y gyfundrefn iechyd a diogelwch.

## Beth yw'r Cod Arferion Gorau i Weithredwyr Ffonau Symudol?

Cyhoeddwyd **Cod Arferion Gorau Diwygiedig ar Ddatblygu Rhwydwaith Ffonau Symudol** ar gyfer Cymru yn 2021. Cafodd ei gynhyrchu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r diwydiant ffonau symudol i hwyluso'r broses o osod ac uwchraddio offer telathrebu symudol. Mae'r Cod yn:

- cefnogi'r broses o roi'r seilwaith ffonau symudol ar waith, a rhoi arweiniad ynghylch y gofynion cymhleth sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhwydwaith;
- amlinellu fframwaith ymgysylltu ar gyfer gweithredwyr rhwydweithiau symudol ac awdurdodau cynllunio, wrth iddynt ystyried ceisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw a/neu ganiatâd cynllunio llawn;
- ceisio osgoi elfennau sy'n achosi gwrthdaro, a lleihau unrhyw effeithiau niweidiol ymddangosiadol gymaint â phosibl wrth ddarparu offer telathrebu;
- cefnogi dull gweithredu mwy cydweithredol wrth gyflwyno a gwella cysylltedd digidol ledled Cymru.

## Ffynonellau allweddol

### Llywodraeth Cymru

Mae **adran adeiladu a chynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Cyhoeddwyd canllawiau **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 19 - Telathrebu** ar ganllawiau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer offer telathrebu yn 2002
- Cyhoeddwyd **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11)** yn 2021.
- **Dyfodol Cymru: y Cynllun Cenedlaethol 2040** yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, a gyhoeddwyd yn 2021.

### Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** ac mae'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n darparu gwasanaethau cyngori, gan gynnwys llinell gymorth a'r **canllawiau** hyn.

### Ymchwil y Senedd

Mae papurau briffio cynllunio eraill sy'n cael eu llunio gan Ymchwil y Senedd ar gael dan y **categori cynllunio ar wefan Ymchwil y Senedd**.